North Wales Knowledge Transfer Hubs

What is it?

The North Wales Knowledge Transfer Hubs (NWKTH) project is a HEFCW-funded initiative to promote the support available to business from the region's universities and FE colleges.

The Hubs are two virtual centres, one focused on NE Wales and the other on NW Wales, to bring together the expertise of the four main HE and FE institutions in the region and facilitate support for local businesses. The four institutions involved are Wrexham Glyndwr University (project lead) and Coleg Cambria in the north-east and Bangor University and Grwp Llandrillo Menai in the north-west.

How can we help you?

There is a wealth of expertise available in the universities and colleges across North Wales. With 24 campuses and locations stretching from Anglesey in the west to Deeside in the east, and a global reach, we have something for every business. Whatever the issue you need support with, we will have someone who can assist or who will know where to point you. From short-term consultancy support, through tailored training, to substantial collaborations on research and innovation, we're here to help.

NWKT Vouchers

Through the NWKTH project, eligible businesses can access £500 to £1,500 worth of vouchers. The vouchers are designed to help you scope an innovation project or seed-fund collaborative R&D, the vouchers are available to businesses of all sizes, based in North Wales who are looking to build KT partnerships with local universities and FE colleges.

Expertise

All four institutions have dedicated business support teams. We can help with practically any business issue you are faced with: be that market research; product development; horizon-scanning; engineering trouble-shooting; technological innovation; strategic planning; developing social impact and corporate social responsibility; improving sustainability.

Our initial approach is to chat to you and find out more about the business and the sort of support you require: once we have done that then we can suggest the best source of help from across the project partners and the most appropriate mechanism.

Project Contacts

NW Wales: Bangor University - Tudur Williams 01248 388492 t.t.williams@bangor.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

Canolfannau Trosglwyddo Gwybodaeth Gogledd Cymru

Beth yw hyn?

Mae prosiect Canolfannau Trosglwyddo Gwybodaeth Gogledd Cymru (CTGGC) yn fenter a ariennir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i fusnesau gan brifysgolion a cholegau addysg bellach y rhanbarth.

Dwy ganolfan rithwir ydynt; un yn canolbwyntio ar ogledd-ddwyrain Cymru a'r llall ar ogledd-orllewin Cymru. Maent yn dwyn ynghyd arbenigedd y pedwar prif sefydliad addysg bellach ac addysg uwch yn y rhanbarth ac yn hwyluso cymorth i fusnesau lleol. Y pedwar sefydliad dan sylw yw Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (arweinydd y prosiect) a Choleg Cambria yn y gogledd-ddwyrain, a Phrifysgol Bangor a Choleg Llandrillo Menai yn y gogledd-orllewin.

Sut allwn ni eich helpu?

Mae toreth o arbenigedd ar gael ym mhrifysgolion a cholegau gogledd Cymru. Gyda 24 o gampysau a lleoliadau yn ymestyn o Ynys Môn yn y gorllewin i Lannau Dyfrdwy yn y dwyrain, a chwmpas byd-eang, mae gennym rywbeth i'w gynnig i bob busnes. Beth bynnag fo'r mater rydych eisiau cymorth gydag ef, bydd gennym rywun a fydd yn gallu helpu neu a fydd yn gwybod i ble y dylid eich cyfeirio. O gymorth ymgynghorol byrdymor i hyfforddiant wedi'i deilwra a phrosiectau cydweithredol sylweddol ar ymchwil ac arloesi, rydym yma i helpu.

Talebau CTGGC

Drwy brosiect CTGGC, bydd gwerth £500 i £1,500 o dalebau ar gael i fusnesau cymwys. Mae'r talebau yno i'ch helpu i bennu cwmpas prosiect arloesi neu fel cyllid sbarduno ar gyfer gwaith ymchwil a datblygu ar y cyd. Maent ar gael i fusnesau o bob maint, sydd wedi'u lleoli yng ngogledd Cymru ac yn awyddus i feithrin partneriaethau trosglwyddo gwybodaeth â phrifysgolion a cholegau addysg bellach lleol.

Arbenigedd

Mae gan bob un o'r pedwar sefydliad dimau cymorth busnes pwrpasol ar gyfer hyn. Gallwn helpu gyda bron bob mater busnes y dewch ar ei draws, boed yn ymchwil i'r farchnad, datblygu cynnyrch, sganio'r gorwel, datrys problemau, arloesi technolegol, cynllunio strategol, datblygu effaith gymdeithasol a chyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol; gwella cynaliadwyedd.

I ddechrau, byddwn yn sgwrsio gyda chi ac yn dod i wybod mwy am y busnes a'r math o gymorth sydd ei angen arnoch: ar ôl gwneud hynny, gallwn awgrymu'r ffynhonnell gymorth orau o blith partneriaid y prosiect a'r mecanwaith mwyaf priodol.

Pwyntiau cyswllt y prosiect

Gogledd-orllewin Cymru: Prifysgol Bangor - **Tudur Williams** 01248 388492
t.t.williams@bangor.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales